

www.cyngorllanelltyd.cymru

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn
Neuadd Bentref, Llanelltyd
Nos Fawrth, Mawrth 12, 2024 am 7.30 o'r gloch.**

Preseanol: Cyngorwyr: Simon Evans, Llinos Williams, Geraint Rowlands, Llinos Rowlands, Gwenan Owen, Eleri Jones, Elfed ap Gomer. Hefyd Henry M. Edwards a Cyng. Delyth Lloyd Griffiths .

1. Ymddiheuriadau: Gareth Ellis.

2. Datgan diddordeb:

Roedd Elfed ap Gomer yn datgan diddordeb ynglŷn ag Eitem 5.dd.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Chwefror 13, 2024

Cynigwyd y cofnodion gan Llinos Rowlands ac eilwyd gan Geraint Rowlands.

4. Materion yn codi o'r cyfarfod Chwefror 13, 2024

Eitem 4. Eitem 11.7. Derbyniwyd llythyr (15/2/2024) oddi wrth Delyth yn rhoi gwybod bydd y ddedfryd yn digwydd dydd Gwener, Mawrth 15 oherwydd profedigaeth deuluol.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Eitem 11.ch. Llythyr (29/2/2024) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod sydd ddim angen bin halen arall ar y ffordd ond defnyddio y bin sydd yno'n barod. (Rhoddwyd gwybod (29/2/2024) i Priffyrdd mae angen y bin ond cafwyd galwad ffôn (5/3/2024) ganddynt yn dweud sydd ddim angen bin arall). Anfonwyd llythyr (7/3/2023) yn rhoi gwybod mae angen bin arall oherwydd mae'r bin presennol BD5 ymhell o Foel Ispri Uchaf.'

Eitem 11.ch. Diolchwyd (29/2/2024) i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd am y gwaith rhagorol cafodd ei wneud yn sgubo ffordd Taicynhaeaf.

5. Materion Ariannol

- a. Llythyr (15/2/2024) oddi wrth Marie Curie yn diolch am ein rhodd o £120.
- b. Llythyr (20/2/2024) oddi wrth Theatr Baracaws yn diolch am ein rhodd o £30.
- c. Llythyr (2/3/2024) oddi wrth Elusen Ambiwlans Awyr Cymru yn diolch am ein rhodd o £300.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION CYFARFOD MAWRTH 12, 2024

ch. Llythyr (7/3/2024) oddi wrth Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc Meirionnydd yn diolch am ein rhodd o £150.

d. Llythyr (12/3/2024) oddi wrth Neuadd Bentref Llanelltyd yn diolch am ein rhodd o £450.

dd. Diolchodd Elfed ap Gomer, ar ran Cymdeithas y Dydd, am ein rhodd o ££75.

e. Llythyr (23/2/2024) oddi wrth Neuadd Bentref Bontddu yn diolch am ein rhodd o £450 a holi pam mae'r cyfraniad yn llai y flwyddyn hon (roedd yn £600).

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Neuadd y rheswm am gostwng y rhodd oedd yr angen i dorri lawr rhanu arian i wahanol sefydliadau oherwydd mae ein costau wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi golygu roedd rhaid codi ein prasept am y flwyddyn 2024-2025. Y rheswm arall yw cafodd y Neuadd rhodd o £300 tuag at deffibriliwr ym mis Ebrill.

f. Mae camgymeriad wedi cael ei wneud i gyflog y Clerc, ac mae hyn oherwydd ni chanslodd y Clerc 'Standing Order' taliad tri mis y Banc, y tri mis oedd addasiad i newid y cyflog. Mae angen i'r Clerc ad-dalu y Cyngor £426.24 i wneud y cyflog yn gywir, sef £3,017.52.

ff. Balans yn y banc ar 29/2/2024: £5,925.96.

6. Archwilio

7. Mynwent Llanelltyd

a. Mater sydd angen sylw o gyfarfod Chwefror 13, 2024:

Eitem 5.a. Mae Mr Meurig Ashton yn dymuno cael torri gwair ym mis Gorffennaf. Mae hyn oherwydd y gwrthwynebiad iddo dorri gwair yn Ebrill/Mai. Felly bydd torriad gwair ym Mehefin, Gorffennaf, Awst a Hydref.

Anfonwyd llythyr yn rhoi y gwybodaeth i'r aelodau

Bil (2/12/2023) am £1,580.00 oddi wrth A.M. Ashton am wneud gwaith yn y fynwent. Torri gwair a'i gludo ym Mehefin, Awst a Hydref (£1,200); chwistrellu'r llwybrau a'r waliau â chwynladdwr (10awr @ £14 = £140 + £30 (chwynladdwr)); torri mân goed a choeden gelyn wrth Tanllan a'u cludo (10awr @ £14); a thorri gwrychoedd (5awr @ £14 = £70).

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION CYFARFOD MAWRTH 12, 2024

Amgáu gyda'r bil roedd llythyr (7/12/2023) yn awgrymu adolygu trefniant torri gwair oherwydd costau wedi cynyddu'n sylweddol ers iddo wneud y gwaith 7 mlynedd yn ôl. Mae'n awgrym torriad ychwanegol yn niwedd Ebrill / dechrau Mai. Felly bydd 4 torriad am £450 yn gwneud cyfanswm o £1,800.00 (swm presennol yw £1,200.00). Gyda gwaith ychwanegol e.e. chwistrellu £16 yr awr (pris presennol yw £14 yr awr).

Y gost fyddai'r bil uchod gyda'r prisiau newydd: £1,800 + £160 (10awr @ £16) + £30 + £160 + £80 (5awr @ £16) = £2,230.00.

Penderfynwyd cael cyfarfod ym mis Ebrill ar y safle gyda Meurig Ashton i gael dealltwriaeth beth sydd angen ei wneud yn y fynwent. Bydd Simon Evans, Geraint Rowlands ac Eleri Jones yn bresenol ar ran y Cyngor.

b. Llythyr 11/3/2024) oddi wrth Gwasanaethau Adran Amgylchedd, Cyngor Gwynedd yn angen i ni gwblhau cytundeb gwastraff masnachol ar gyfer Mynwent Llanelltyd ar gyfer 2024/25. Y gost am gasgliad wythnosol gwastraff gweddilliol a defnyddio bin olwyn 240 ltr fydd £443.

Penderfynwyd derbyn y cytundeb.

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

9. Gohebiaeth

a. Llythyr (26/2/2024) oddi wrth Cyngor Cymuned Pistyll ynglŷn â hyfforddiant a chael modiwlau trwy'r Gymraeg, gwasanaeth sydd ddim yn cael ei roi gan Un Llais Cymru. Derbyniodd Comisiynodd y Gymraeg cais y Cyngor am hyfforddiant yn Gymraeg a rhoddwyd gwybod i swyddogion Un Llais Cymru. Felly mae'r Cyngor yn trefnu cyrsiau Un Llais Cymru yn Gymraeg. Amgáu gyda'r llythyr mae rhestr o fodiwlau sydd ar gael; mae'r modiwlau yn para am 90 munud a bydd ar-lein.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (5/3/2024) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyrsiau i wella sgiliau Cymraeg am 4 wythnos neu 2 wythnos rhwng Gorffennaf 8 ac Awst 2, 2024 yn Aberystwyth.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Llythyr (11/3/2023) oddi wrth Gwasanaeth Cludiant Integredig a Diogelwch y Ffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am gyfle i holi swyddogion Cyngor Gwynedd a Lloyds Coaches am wasanaeth bws fflecsi yn ardal Dolgellau. Bydd y cyfle i holi ar ddydd Iau 21/3/2024 am 10.00yb i 2.00yp yn Caffi Tŷ Siamas.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

10. Bioamrywiaeth

a. Cafwyd diwrnod o blanu coed a blodau yn y fynwent, a chlirwyd y darn dir sydd wrth hen bont Llanelltyd trwy dorri gwair.

Penderfynwyd talu bil o £963.20 i Simon Evans am brynu nwyddau ar gyfer gwneud gwaith bioamrywiaeth. Ni dderbyniwyd bil at y swm. Mae disgwyl cawn ad-daliad am y swm gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

11. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths

a. Neges pasiwyd i'r aelodau (22/2/2024):

Datganiad i'r wasg parthed Coed y Brenin yn dal ar agor wedi mynd allan 16/2/24 – gan Ffion Clwyd Plaid Cymru

Gofynnwyd i mi anfon datganiad allan er mwyn rhoi gwybod fod y ganolfan ar agor.

Mae grwp lleol o dan arweiniad Rhys Llywelyn wedi cyfarfod 19/2/24 ac yn bwriadu sefydlu Grwp Cymunedol (dim yn gwneud elw).

b. **Ariannu Gwynedd i'r dyfodol**

- Gyda'r pwysau cynyddol ar y galw am wasanaethau Cyngor Gwynedd ar ben chwyddiant, mae angen **£23 miliwn** i gyfarch y bwch ariannu yn y gwasanaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

- Dim ond cynnydd o **£4 miliwn** welodd Cyngor Gwynedd yn ei setliad ariannol gan y Lywodraeth Lafur yng Nghaerdydd eleni (2024-2025). Does dim angen bod yn fathamategydd i weld y bydd bwch ariannol anferthol, o wneud dim.

- Mae nifer y bobl sy'n ddigartref yng Ngwynedd wedi codi 35% ers 2018/19. Mae'n golygu cynnydd ariannol o £5.2miliwn i ofalu am bobl sydd heb do uwch eu pennau y flwyddyn hon.

- Mae nifer y bobl hŷn sydd angen cefnogaeth, gofal a lles yng Ngwynedd wedi codi 400 dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

- O Ebrill 2024 ymlaen, bydd setliad ariannol Cyngor Gwynedd gan Lywodraeth Lafur Cymru yr isaf (ar y cyd â chyngor arall) o'r 22 cyngor sir sydd yng Nghymru. Mae'r ffaith bod poblogaeth Gwynedd wedi gostwng yn fwy na'r un awdurdod arall ar ben y ffaith ein bod yn gweithredu mewn ardal ddaearyddol wledig yn rhan sylweddol o'r rheswm am hyn.

- O weithio gyda chyllidebau fel grantiau o ffynhonnellau eraill a chydweithio â phartneriaid, **bydd bwch o £15 miliwn angen ei gau** os am gadw'r union wasanaethau a ddarperir i bobl Wynedd fel ag y maen nhw heddiw.

- 30% o gyllideb gyfan Cyngor Gwynedd ddaw o Dreth y Cyngor er mwyn

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION CYFARFOD MAWRTH 12, 2024

addysgu ein plant, gofalu am yr henoed a chartrefu pobl sydd heb do uwch eu pennau.

- Treth y Cyngor – mae pob 0.5% o gynnydd mewn Treth y Cyngor yn golygu tua £450,000.
- Mae tua £450,000 o gyllideb y cyngor yn gyfwerth â gweithredu Tîm Gorfodaeth Stryd am flwyddyn.

Safbwynt Plaid Cymru Gwynedd

- Y Blaid yng Ngwynedd sydd wedi sicrhau rheolaeth gadarn a chytbwys dros wasanaethau a chyllideb Cyngor Gwynedd dros y blynyddoedd diwethaf.
- Mae bron i **£70 miliwn** o doriadau wedi ei gorfodi ar Gyngor Gwynedd, oherwydd llymder (austerity) di-drugaredd y Llywodraeth Doriadau yn Llundain ers bron i 15 mlynedd
- Does gan y Toriaid ddim diddordeb mewn cynnal gwasanaethau cyhoeddus, yn arbennig felly, gwasanaethau cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig o Gymru, fel Gwynedd.
- Amcan Plaid Cymru yng Ngwynedd yw gwneud pob dim posib i amddiffyn pobl Gwynedd, ond gyda storm berffaith ar y gorwel, mae'n rhaid wynebu realiti. Llai o arian = llai o wasanaethau a dirywiad yn y gwasanaethau hynny.
- Bydd y Blaid yn parhau i sicrhau bod Cyngor Gwynedd yn paratoi a blaengynllunio'r gwaith ariannol yn ofalus ac yn drylwyr, er gwaetha'r heriau sy'n ein wynebu.
- Rhaid talu gwrogaeth i staff Cyngor Gwynedd, sydd wastad yn mynd y filltir ychwanegol wrth geisio sicrhau bod gwasanaethau'r cyngor yn parhau. Ein staff yw'n ased fwyaf.
- Egwyddorion creiddiol Plaid Cymru yng Ngwynedd yw diogelu'r bregus, cynorthwyo'r gwan a chynnig y cyfleoedd gorau posib i'n trigolion. Lles ein trigolion a'n cymunedau sy'n dod flaenaf.
- Tîm Plaid Cymru sy'n gweithio ar bob lefel: ar y cyngor sir, yn Senedd Cymru ac yn San Steffan, dros drigolion Gwynedd.
- Dim ond trwy lywodraethu ein hunain y gallwn wneud gwir wahaniaeth i fywydau pobl. Annibyniaeth dros bobl Gwynedd a Chymru yw'r ffordd i roi buddiannau trigolion lleol yn gyntaf.

1. Sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd – wedi ei adrodd i'r Cyngor.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION CYFARFOD MAWRTH 12, 2024

2. **Coed y Brenin** – Grŵp Coed y Brenin gan gynnwys Seimon Evans yn symud ymlaen i ffurfio grŵp cymunedol a chyfarfod a Elsie Grace Swyddog masnachol Cyfoeth Naturiol Cymru 25/3/24

Bydd y grŵp yma yn gweithio gyda grŵp Cymunedoli ac yn gofyn am grant gan Menter Môn ar gyfer arolwg dichonoldeb fydd yn cael ei wneud gan y grŵp.

3. **Sbwriel Hengwrt** – achos yn Llys y Goron Caerdydd 15/3/24 yn ôl Ieuan Vaughan Cyfoeth Naturiol Cymru. Delyth am fynychu.

4. **Cyflymder y ceir yn ardal Bro Cymer.** Mae Mabon ap Gwynfor yn barod i ddod i'r lleoliad i gynnal cyfarfod gyda pawb o'r ardal sydd â diddordeb 4/4/24 am 11yb. Croeso i bawb sydd yn byw yn lleol fod yn bresennol.

Bydd yr ymgyrch yn mynd i'r Senedd yn dilyn y cyfarfod. Mae angen cael y cyfarfod gan nad yw cefnffyrdd wedi rhoi gwybodaeth i ni am eu cynlluniau i wella diogelwch cerddwyr yn y lleoliad.

5. **Pont Hirgwn, Bontddu.** Cytunwyd i drefnu ymweliad safle gyda swyddogion peirianyddol y Cyngor gan nad yw y cyngor yn medru rhoi arweiniad pendant ar sut i sicrhau fod y Bont yn addas ar gyfer trafndiaeth 21 ganrif.

6. **Cyngor Llawn 7/3/24.** Cafodd Delyth y cyfle i siarad i gefnogi ffermwyr Cymru a'i gwaith yn darparu bwyd. Defnyddiwyd ffigurau NFU i greu y cyflwyniad. Gellir gweld y cyflwyniad ar wefan y cyngor o dan y dyddiad(7/3/24). Mae yn bwysig fod y cynghorydd lleol yn cefnogi y diwydiant amaeth yng Nghymru a chynhyrchu bwyd yn lleol ac yn y byd.

7. **Adroddiad ar Ddemocratiaeth** a gyflwynwyd gerbron y cyngor Llawn 7/3/24. Yr oedd yr adroddiad yn cynnwys sylw am uno Cynghorau Cymuned Ganllwyd a Llanelltyd a Bontddu. Er gwybodaeth yn unig y cyflwynwyd y wybodaeth yma.

8. **Cais cynllunio Bontddu Hall** i ddod o flaen Pwyllgor Cynllunio y Parc 17/4/24.

9. **Dŵr yn dod o'r ffordd yn Bontddu.** Dwr yn rhedeg i eiddo trigolion ym mhentref Bontddu wedi cael sylw y Cyngor ar ôl i Delyth gyfeirio y mater. Asesiad wedi ei wneud ond dim cynllun gweithredu wedi ei rhannu eto.

12. Materion Brys

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Mr Dylan Erfyl Davies, Adran YGC, Cyngor Gwynedd mae angen cyfarfod ar Bont Hirgwm i weld beth allith ei wneud i arbed y bont rhag i'r canllawiau cael eu tarro gan gerbydau llydan. Yn y cyfarfod bydd Delyth Lloyd Griffiths, Gwenan Owen a Llinos Rowlands. Bydd y cyfarfod ar ddydd Gwener.

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Mabon ap Gwynfor AS mae angen cyfarfod gydag aelodau y Cyngor Cymuned (ac eraill yn y gymuned) ar ffordd A470 sy'n mynd trwy

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION CYFARFOD MAWRTH 12, 2024

Llanelltyd o'r gylchffordd A470/A496 i fynedfa Bro Cymer. Y rheswm am y cyfarfod yw'r goryrru sy'n digwydd ar y ffordd ac oherwydd hyn yr angen i ostwng cyflymder y ffordd o 40mya i 30mya. Mae Delyth Lloyd Griffiths wedi bod mewn cysylltiad â Mabon ap Gwynfor ynglŷn â'r mater.

c. Dyfodol y Clerc. Mae'r aelodau yn gwneud ymdrech i gael Clerc newydd.

Mae gan un person diddordeb i lenwi'r swydd.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION CYFARFOD MAWRTH 12, 2024

Er sylw Mabon ap Gwynfor AS

Annwyl Syr,

Yn cyfarfod y Cyngor noson o'r blaen penderfynwyd gwneud ymoliadau â chi os byswch yn fodlon cyfarfod aelodau y Cyngor (ac eraill o'r gymuned) ar ffordd A470 sy'n mynd trwy Lanelltyd o'r gylchffordd A470/A496 i fynedfa Bro Cymer. Y rheswm am y cyfarfod yw'r goryrru peryglus sy'n digwydd ar y ffordd ac oherwydd hyn yr angen i ostwng cyflymder y ffordd o 40mya i 30mya. Dim ond un pafin sydd ar ochr y ffordd i gerddwyr ac wrth yr Eglwys does dim pafin. Rwy'n deall mae Delyth Lloyd Griffiths wedi bod mewn cysylltiad â chi ynglŷn â'r mater hyn.

Rwy'n deall rydych wedi cytuno gyda Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths y dyddiad y cyfarfod sef dydd Iau, Ebrill 4, 2024 am 11.00yb.

Yn gywir

H.M. Edwards

Clerc Cyngor Cymuned Llanelltyd